

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Nos Fawrth, Mehefin 4ydd 2013

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Ian Trow, Arwel Lloyd Jones, Karl Jones Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Catrin Roberts, Rhodri Jones, Huw Roberts

Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1172 Wrth groesawu pawb i'r Cyngor, llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Alwyn Roberts ar enedigaeth Elen Aur. Llongyfarchodd pawb a oedd wedi bod yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dewi Jones ac Alwyn Roberts.

1173 Nid oedd datganiad o fuddiant.

1174 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1175 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 7fed 2013

1176 Materion yn codi:

- i. Toiledau: mae Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi cytuno mewn egwyddor i brynu'r toiledau ar yr amod mai Cyngor Cymuned Llanuwchllyn fydd yn gyfrifol am yr holl gostau a chyfrifoldebau; gofynnir i Gyngor Cymuned Llanuwchllyn lunio Cytundeb i'r perwyl. Mae angen gwneud peth gwaith cynnal a chadw a bydd Karl Jones yn gwneud asesiad.
- ii. Y fynwent – bydd yr is bwyllgor yn cyfarfod yr wythnos hon.
- iii. Siop Bronnant - mae Swyddogion Gwynedd yn ymchwilio i'r mater
- iv. Safle troi bws wrth y Felin – mae'r mater yn nwylo Swyddogion Gwynedd ac mae'r Cynghorydd Sir hefyd yn pwysu ar y Swyddogion i weithredu.

1177 **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri

Cymeradwywyd cais NP5/71/441 Cynllun Dŵr Nant Hir (ail fersiwn)

Gwynedd: Derbyniwyd y Rhaglen Waith am y mis.

Heddlu Gogledd Cymru: Derbyniwyd e-bost yn dweud fod yr Heddlu yn gweithredu ar fater gyrwyr anghyfreithlon

Un Llais Cymru: Derbyniwyd hysbysiad am y Gynhadledd Flynyddol 5/10/13 (Llanelwedd) a gwahoddiad i lunio cynnig; dewiswyd y Cadeirydd fel cynrychiolydd; cefnogwyd iddo lunio cynnig ar yr angen i Gynghorau gwledig gyd-weithio fel ardal megis ardal dalgylch ysgol uwchradd.

Arall:

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Ffederasiwn Meirionnydd o Glybiau Ffermwyr Ieuan.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Llandderfel yn mynegi pryder am statws yr iaith ym Mhenllyn ac yn arbennig ym musnesau tref Y Bala. Cytunwyd i fynegi cefnogaeth i Gyngor Llandderfel yn y dymuniad i greu Cynllun. Cyfeiriodd y Clerc at Swyddog Uned Iaith y Llywodraeth yng Nglan-llyn wrth gydnabod derbyn y llythyr, a chytunodd y Cadeirydd i ddwyn ei sylw at y mater ar ran Gyngor Cymuned Llanuwchllyn hefyd. Bydd y Cadeirydd hefyd yn manteisio ar y cyfle i siarad gyda Swyddog Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Gymuned.

Cytunodd y Cyngor fod angen targedu'r siop newydd arfaethedig cyn i staff gael eu hapwyntio er mwyn sicrhau bod staff yn barod i siarad Cymraeg.

1178 **Materion ariannol**

- i. Cytunwyd i anfon y ffurflenni blynyddol at yr Archwilwyr Allanol.
- ii Cytunwyd i dalu biliau'r mis.
- lii Cytunwyd i ymrwymo am 3 mlynedd i gwmni yswiriant Zurich (£567 pa)

1179 **Partneriaeth Penllyn** - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Mae cais yn cael ei anfon at Gyngor Sir Gwynedd i ddatganoli mwy o waith i'r Partneriaeth. Cytunwyd yn y Cyfarfod Blynyddol i ffurfio dau is-grŵp er mwyn rhannu'r gwaith rhwng y cynrychiolwyr. Hoffai Cynrychiolwyr roi cyflwyniad i'r Cynghorau Cymuned a Thref yn eu cyfarfodydd ym mis Medi.

1180 **Materion Lleol**

- i. Cytunwyd i'r Is-bwyllgor ystyried materion lleol megis y faner groeso ar 5/6/13.
- ii. Cytunwyd i ofyn i'r Heddlu Lleol gael gair gyda pherchennog ci sydd yn gallu dychryn tramwyyr.
- iii. Cytunwyd i osod mater croesawu Eisteddfod yr Urdd ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
- iv. Dymunwyd yn dda iawn i Mari Williams am ei mentergarwch gyda'r *Cyfnod*, a diolchwyd i'r cyn-berchnogion a'r staff am ddal ati cyhyd.
- v. Cafwyd trafodaeth ar y pryder parhaus am fflatiau Maesypanyd ac addaswyd Llanuwchllyn i'r tenantiaid yno. Cytunwyd i ysgrifennu eto.